



Office for
National Statistics
Swyddfa
Ystadegau Gwladol

Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad SYG

Ymgynghoriad

Barn Gychwynnol ar
Gynllun Cynnwys
Allbynnau Cyfrifiad 2021

Chwefror 2018

Tabl cynnwys

Cyflwyniad	2
Ymgynghoriad – sut yr hoffem i chi ymateb	2
Polisi cymedroli	3
Ymgysylltu â defnyddwyr y dyfodol	3
Gweledigaeth ar gyfer allbynnau Cyfrifiad 2021	5
Amcanion strategol Cyfrifiad 2021	6
Datganiad o Gytundeb rhwng yr Ystadegydd Gwladol a'r Cofrestrwyr Cyffredinol	6
Mynediad at ganlyniadau Cyfrifiad 2021	7
System ledaenu hyblyg	7
Rheoli datgelu ystadegol	8
Cysoni ledled y DU ac ystadegau'r DU	9
Allbynnau Cyfrifiad Gwell	9
Canlyniadau penodol ar gyfer y Cyfrifiad	10
Cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021	10
Cynhyrchion arbenigol Cyfrifiad 2021	11
Microdata	11
Tarddiad-cyrchfan	12
Astudiaeth Hydredol	13
Mynediad at ddata sensitif y cyfrifiad	13
Canlyniadau Cyfrifiad 2021 – allbynnau, seiliau poblogaeth a daearyddiaeth	14
Categoriâu allbwn	14
Seiliau poblogaeth	14
Poblogaethau bach	15
Daearyddiaeth	16
Dehongli canlyniadau Cyfrifiad 2021	18
Metadata	18
Sicrhau canlyniadau o ansawdd	18
Rhaglen ddadansoddi	19
Modelau trwyddedu, ariannu a chodi tâl	19
Cymaroldeb rhyngwladol canlyniadau Cyfrifiad 2021	20
Casgliad	21
Atodiad – TEMPLD holiadur papur	23

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein cynllun arfaethedig cychwynnol ar gyfer allbynnau Cyfrifiad 2021 a'r sianeli lledaenu ar gyfer Cymru a Lloegr. Hoffem gasglu eich barn ar ein cynllun cychwynnol ar gyfer allbynnau Cyfrifiad 2021 er mwyn sicrhau y bydd ein cynnig yn diwallu eich anghenion. Bydd eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn bwysig. Bydd yr adborth hwn yn ein helpu i flaenoriaethu ein hymchwil a'n gwaith o ddatblygu allbynnau Cyfrifiad 2021 yn y dyfodol. Bydd hefyd yn llywio'r penderfyniad ynghylch ym mha drefn y byddwn yn rhyddhau ein cynhyrchion.

Yr ymgynghoriad hwn yw ein cam cyntaf tuag at ddeall yr hyn sydd ei angen arnoch o allbynnau Cyfrifiad 2021, gan gynnwys cynhyrchion arbenigol. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad terfynol a fydd yn amlinellu ein cynlluniau manylach cyn diwrnod y cyfrifiad.

Mae ein barn gychwynnol yn seiliedig ar y canlynol:

- y gwerthusiad o gynllun cynnwys allbynnau Cyfrifiad 2011 a'r ffordd y cawsant eu cyflwyno
- ein dealltwriaeth bresennol o anghenion defnyddwyr a'n gwybodaeth am atebion technolegol a methodolegol posibl
- ein dealltwriaeth bresennol o fforddiadwyedd
- ein dyheadau o ran cysylltu data gweinyddol â data Cyfrifiad 2021 er mwyn llunio allbynnau cyfrifiad gwell.

Mae'n bwysig nodi mai cynnig yw hwn ar hyn o bryd. Bydd cynllun terfynol cynnwys yr allbynnau yn dibynnu ar waith ymchwil pellach, cost, dichonoldeb, argaeledd data gweinyddol, profion ac adborth gan ddefnyddwyr.

Mae'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn cyfeirio'n benodol at gynllun y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, oni nodir fel arall. Rydym yn cydweithio'n agos â Chofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA) er mwyn sicrhau y gellir cymharu'r canlyniadau ar lefel y DU, lle bo hynny'n bosibl. Bydd NRS a NISRA yn ymgynghori â defnyddwyr yn eu priod wledydd maes o law.

Ymgynghoriad – sut yr hoffem i chi ymateb

Y ffordd orau o ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw ar-lein¹. Gallwch hefyd ymateb i'r ymgynghoriad gan ddefnyddio templed holiadur papur (Gwelwch yr atodiad). Anfonwch eich ymateb drwy e-bost i census.outputs@ons.gov.uk gan ddefnyddio'r llinell destun "Ymgynghoriad ar y Farn Gychwynnol".

Mae rhai cwestiynau gorfodol y mae angen i chi eu cwblhau er mwyn i ni gynnwys eich ymateb yn ein dadansoddiad.

Gwahoddir ymatebion i'r ddogfen ymgynghori hon tan 23 Mai 2018. Byddwn yn cyhoeddi ein hymateb i'ch adborth erbyn mis Yr Hydref 2018.

Mae rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn defnyddio a gwerthuso eich ymatebion i'r ymgynghoriad yn adran canlyniad y ddogfen hon. Gall y wybodaeth hon fod o ddefnydd i chi wrth i chi ateb y cwestiynau.

¹ <https://consultations.ons.gov.uk/census/initial-view-on-the-2021-census-output-design>

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, anfonwch e-bost at dîm Allbynnau a Lledaenu Cyfrifiad 2021 yn census.outputs@ons.gov.uk.

Polisi cymedroli

Er mwyn helpu i sicrhau tryloywder yn ein proses o wneud penderfyniadau, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd hyn yn cynnwys enw'r sefydliad neu'r unigolyn sy'n ymateb, ond gofynnir i chi gadarnhau eich bod yn hapus i'ch enw gael ei gyhoeddi. Ni fyddwn yn cyhoeddi manylion cyswllt personol. Dylech fod yn ymwybodol y gallai unrhyw wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn fod ar gael i'r cyhoedd os bydd ei hangen yn unol â chais Rhyddid Gwybodaeth.

Mae hyn yn rhoi cyfle i chi anfon ymateb a fydd ar gael i'r cyhoedd yn barhaol ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Felly, byddwn yn mynd ati i gymedroli ymatebion er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac nad ydynt yn niweidiol i eraill. Rydym yn cymedroli yn unol â'r telerau isod.

Gall ymatebion sy'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol gael eu dileu. Ymhlith y rhain mae:

- bygythiadau neu achosion o annog traïs
- anweddustra
- ymatebion union debyg neu sylweddol debyg gan yr un person neu endid
- ymatebion sy'n ceisio cyflogaeth neu'n cynnwys hysbysebion ar gyfer cynnyrch neu wasanaeth masnachol
- gwybodaeth sy'n mynd yn groes i'r gyfraith, gan gynnwys enllib, cydoddef neu annog gweithgarwch anghyfreithlon, datgelu gwybodaeth ddirgel, neu achos o dorri hawlfraint neu nod masnach

Mae cymedrolwyr yn cadw'r hawl i ddileu ymatebion nad ydynt yn mynd i'r afael ag agwedd benodol ar yr ymgynghoriad. Rydym yn gwerthfawrogi eich amser a'ch mewnbwn, a'n dymuniad yw dileu cyn lleied o ymatebion â phosibl a sicrhau bod arolwg adeiladol â ffocws iddo yn cael ei gynnal ar yr un pryd.

Gellir newid y polisi cymedroli hwn er mwyn mynd i'r afael â materion ychwanegol fel y bo angen. Os oes gennych gŵyn am unrhyw eitem gynnwys a gynhyrchwyd gan ddefnyddiwr, neu os ydych yn teimlo bod eich cynnwys eich hun wedi'i ddileu mewn camgymeriad, cysylltwch â ni yn ons.communications@ons.gsi.gov.uk neu ffoniwch 0845 601 3034.

Ymgysylltu â defnyddwyr y dyfodol

Yr ymgynghoriad hwn yw'r cam cyntaf tuag at ddeall yr hyn sydd ei angen arnoch o allbynnau Cyfrifiad 2021. Byddwn yn mynd ati i ymgysylltu â defnyddwyr ar bob agwedd ar gynnwys allbynnau a systemau lledaenu'r cyfrifiad drwy gydol y camau cynllunio nes i'r allbynnau gael eu cyhoeddi yn dilyn Cyfrifiad 2021. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad terfynol a fydd yn amlinellu ein cynlluniau manylach cyn diwrnod y cyfrifiad. Byddwn hefyd yn gofyn i ddefnyddwyr fyfyrrio ar ddefnyddioldeb data Cyfrifiad 2021 ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Rydym yn cydnabod bod llawer o ddefnyddwyr data'r cyfrifiad, a bod ganddynt ddiddordebau ac anghenion gwahanol. Am fod cynifer o ddefnyddwyr, ni fydd yn ddichonadwy i ni ymgynghori â

holl ddefnyddwyr data'r cyfrifiad i'r un graddau. Fodd bynnag, byddwn yn gwahodd yr holl ddarpar ddefnyddwyr i gymryd rhan yn ein hymgyngoriadau cyhoeddus. Byddwn hefyd yn defnyddio Grwpiau Cynghori'r Cyfrifiad, sydd eisoes yn bodoli, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i randdeiliaid am ein cynnydd a gwahodd adborth ar ein cynlluniau. Byddwn yn profi ymarferoldeb ein system ledaenu arfaethedig ac yn gwneud penderfyniadau ar sail ymchwil defnyddwyr helaeth. Byddwn hefyd yn sefydlu gweithgorau i sicrhau bod cynllun cynnwys allbynnau penodol (gan gynnwys microdata a chynhyrchion tarddiad-cyrchfan) yn diwallu anghenion defnyddwyr. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn bod yn rhan o unrhyw un o'r gweithgorau hyn, rhowch wybod i ni yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Byddwn yn ystyried barn pob defnyddiwr. Fodd bynnag, dylid cydnabod na fydd yn ymarferol nac yn ariannol hyfyw cyflwyno allbynnau a systemau lleadaenu ar gyfer Cyfrifiad 2021 sy'n bodloni holl ddisgwyliadau cymuned mor fawr ac eang o ddefnyddwyr. Byddwn yn ceisio cyflwyno allbynnau sy'n diwallu'r rhan fwyaf o anghenion defnyddwyr, gan gydweithio ag ystod o randdeiliaid er mwyn sicrhau bod cynhyrchion arbenigol yn cael eu cynllunio mewn ffordd sy'n diwallu anghenion grwpiau penodol. Byddwn yn ystyried cynllun cynnwys yr allbynnau yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:

- hygyrchedd
- hyblygrwydd
- amseroldeb
- dichonoldeb
- y risg o ddatgelu
- costau perthynol
- pa mor dderbyniol ydyw i ddefnyddwyr
- hyder y cyhoedd.

Gweledigaeth ar gyfer allbynnau Cyfrifiad 2021

Ni sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflawni Cyfrifiad 2021 yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cyfrifiad yn hanfodol er mwyn llunio polisiâu a fydd yn pennu dyfodol y wlad a sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn gallu cael gafael ar y wybodaeth gywir i gynllunio a darparu'r gwasanaethau a ddefnyddir gan bob un ohonom. Ar gyfer Cyfrifiad 2021, mae'n bwysig bod canlyniadau'r cyfrifiad yn tynnu sylw at dueddiadau hirdymor, ond hefyd yn adlewyrchu'r gymdeithas rydym yn byw ynddi heddiw. Gwnaeth ein Hymgyngghoriad ar Bynciau Cyfrifiad 2021 ddangos gwerth data'r cyfrifiad o ran helpu defnyddwyr i wneud penderfyniadau gwell yn eu gwaith².

Bydd cynllun a chynnwys allbynnau a dull lledaenu cyffredinol Cyfrifiad 2021 yn cael eu llywio gan fethodolegau ystadegol a thechnegol, argaeledd data gweinyddol o ansawdd da ac anghenion defnyddwyr.

Ar gyfer ein hallbynnau yn 2021, ein nod fydd cynnal neu wella ansawdd yr allbynnau a lunnir gennym ar hyn o bryd yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011. Byddwn hefyd yn sicrhau y gellir cymharu data pan fyddwch yn dweud wrthym fod hynny'n bwysig ac yn darparu gwybodaeth sy'n berthnasol i anghenion defnyddwyr yn 2021.

Allbynnau Cyfrifiad 2011 yw'r set fwyaf cymhleth a chynhwysfawr o wybodaeth am y boblogaeth a luniwyd hyd yma. Dim ond pan fydd defnyddwyr data'r cyfrifiad yn gwneud yn fawr o'r allbynnau cyhoeddedig y caiff manteision y cyfrifiad yn y pen draw eu gwireddu. Dim ond pan fydd y canlyniadau'n hygyrch a'r allbynnau'n diwallu anghenion defnyddwyr y gellir cyfiawnhau'r amser a'r adnoddau a fuddsoddwyd mewn cyfrifiad³.

Roedd yr adborth gan ddefnyddwyr yn dilyn Cyfrifiad 2011 yn nodi bod angen mwy o hyblygrwydd yn yr allbynnau a bod angen rhyddhau data yn fwy amserol. Byddwn yn lledaenu allbynnau o safon uchel sy'n cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Mae hyn yn cynnwys gwneud gwelliannau i'r broses o gyflwyno allbynnau Cyfrifiad 2011 o ran y canlynol:

1. hyblygrwydd – byddwn yn anelu at ddatblygu system ledaenu ryngweithiol ar-lein lle y gall defnyddwyr bennu pa ddata sydd eu hangen arnynt a llunio eu tablau eu hunain
2. amseru – byddwn yn anelu at ledaenu canlyniadau ar lefel genedlaethol ac ar lefel awdurdodau lleol ar gyfer Cymru a Lloegr o fewn 12 mis i ddiwrnod y cyfrifiad, a'r holl ganlyniadau eraill o fewn 24 mis i ddiwrnod y cyfrifiad
3. hygyrchedd – byddwn yn anelu at gynnal y system ledaenu ryngweithiol ar-lein drwy wefan SYG sy'n golygu y bydd y rhan fwyaf o ddata'r cyfrifiad ar gael o un lleoliad ac yn dilyn canllawiau Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth ar hygyrchedd
4. perthnasedd – byddwn yn llunio allbynnau cyfrifiad gwell drwy gysylltu ffynonellau data gweinyddol â data Cyfrifiad 2021 ar lefel cofnodion ar gyfer pynciau lle y nodwyd angen ymhlith defnyddwyr

² <https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/consultations/the2021censusinitialview/oncontentforenglandandwales>

³ <https://www.ons.gov.uk/census/2011census/howourcensusworks/howdidwedoin2011/2011censusgeneralreport>

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ystadegau ar gyfer ardaloedd bach (fel Ardaloedd Allbwn, Parthau Gweithle a phlwyfi) a byddwn yn parhau i lunio canlyniadau ar gyfer yr ardaloedd hyn. Byddwn hefyd yn llunio allbynnau ar lefel y DU, lle y bydd y data a gasglwyd yn caniatáu hynny.

Amcanion strategol Cyfrifiad 2021

Byddwn yn sicrhau bod y gwaith o lunio allbynnau Cyfrifiad 2021 yn bodloni amcanion lefel uchel Rhaglen Trawsnewid y Cyfrifiad sy'n ymwneud ag allbynnau⁴. Mae hyn yn cynnwys:

- llunio ystadegau o'r ansawdd cywir, ac yn ddigon amserol, i ddiwallu anghenion defnyddwyr
- gwneud y defnydd gorau o ffynonellau data gweinyddol wrth lunio allbynnau cyfrifiad integredig, gan gynnwys prosesu ystadegol, sicrhau ansawdd a chreu allbynnau newydd
- sicrhau'r ymwybyddiaeth a'r defnydd ehangaf bosibl o allbynnau'r cyfrifiad
- diffinio a darparu systemau ar gyfer lledaenu allbynnau ystadegol yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod allbynnau'r cyfrifiad mor hygyrch â phosibl
- diogelu data personol cyfrinachol a dangos y gwneir hynny
- sicrhau'r potensial mwyaf posibl am fuddiannau ehangach i SYG a'r system ystadegol o'r buddsoddiad yn y cyfrifiad
- sicrhau gwerth am arian

Datganiad o Gytundeb rhwng yr Ystadegydd Gwladol a'r Cofrestrwyr Cyffredinol

Bydd y gwaith o gyflwyno allbynnau Cyfrifiad 2021 yn glynu wrth y Datganiad o Gytundeb ynglŷn â chynnal Cyfrifiadau 2021 ledled y DU a wnaed gan yr Ystadegydd Gwladol a Chofrestrwyr Cyffredinol yr Alban a Gogledd Iwerddon⁵.

Maent wedi cytuno y bydd y tair swyddfa cyfrifiad a Llywodraeth Cymru yn cydweithio ac yn dod i gytundeb ar y pwyntiau o ddi-ddordeb yn y Datganiad o Gytundeb. Byddwn yn ceisio cysoni lle bo hynny er budd defnyddwyr y cyfrifiad a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol.

Roedd y Cytundeb yn cydnabod bod galw ymhlith defnyddwyr am ystadegau cyson, cydlynol a hygyrch ar gyfer y DU, ar gyfer pob gwlad ac ar gyfer ardaloedd daearyddol o fewn pob gwlad.

Yn amodol ar yr angen am gymeradwyaeth lle y bo hynny'n briodol yn ôl y deddfwrfeydd perthnasol, mae'r Ystadegydd Gwladol a'r Cofrestrwyr Cyffredinol wedi cytuno ar y canlynol:

- dylai allbynnau Cyfrifiad 2021 gynnwys ystadegau cyson, cydlynol a hygyrch ar gyfer y DU, gwledydd unigol ac ardaloedd daearyddol o fewn pob gwlad
- dylid cytuno ar ddiffiniadau a dosbarthiadau cyffredin sydd fel arfer yn seiliedig ar safonau rhyngwladol, eu defnyddio a'u cyhoeddi [Mae hyn yn cynnwys sail boblogaeth gyffredin]
- dylid cytuno ar bynciau a chwestiynau cyffredin lle bynnag y bo modd, gyda'r bwriad o ddarparu allbynnau cyson ledled y DU

⁴ <https://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2021-census/progress-and-development/research-projects/2021-census-design-document.pdf>

⁵ <https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/progressanddevelopment/legislation>

Mynediad at ganlyniadau Cyfrifiad 2021

System ledaenu hyblyg

Rydym yn bwriadu cyhoeddi data'r cyfrifiad ar ein gwefan mewn cyfuniad o dablau un-newidyn a bennwyd ymlaen llaw a system ledaenu ryngweithiol ar-lein lle y gall defnyddwyr bennu pa ddata sydd eu hangen arnynt. Bydd y system ledaenu ryngweithiol yn galluogi defnyddwyr i bennu eu hymholiadau eu hunain, gan ddewis y ddaearyddiaeth, y sail boblogaeth a'r newidynnau sydd eu hangen arnynt. Bydd defnyddwyr yn gallu llunio tablau y gellir eu cymharu â Chyfrifiad 2011.

Byddai hyn yn golygu bod data'r cyfrifiad yn:

1. hyblyg – bydd defnyddwyr yn gallu pennu eu hymholiadau eu hunain
2. amserol – bydd allbynnau ar gael yn gynt na Chyfrifiad 2011
3. hygyrch – byddwn yn cynnal y system ledaenu hyblyg drwy wefan SYG sy'n golygu y bydd y rhan fwyaf o ddata'r cyfrifiad ar gael o un lleoliad ac yn dilyn canllawiau Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth ar hygyrchedd

Mae'r rhain yn fanteision sylweddol a fwriedir i alluogi defnyddwyr i fodloni terfynau amser cynharach, rhoi mwy o amser i wneud gwaith dadansoddi, a darparu data sy'n fwy penodol i'w hanghenion. Bydd y system ledaenu hyblyg hefyd yn rhoi'r un faint o fanylder â Chyfrifiad 2011.

Drwy'r ymgynghoriad hwn, rydym yn ceisio cadarnhau i ba raddau y mae defnyddwyr am gael y math hwn o system, ac esbonio'r cyfyngiadau angenrheidiol i atal datgelu ystadegol gan ddefnyddio dull rheoli datgelu ystadegol dynamig newydd. Mae rhagor o wybodaeth am y fethodoleg hon i'w chael yn yr adran isod. Yn y system ledaenu hyblyg arfaethedig:

- bydd ailadrodd yr un ymholiad ar gyfer yr un ardal bob amser yn arwain at yr un canlyniadau
- mae'n bosibl y bydd cyfansymiau ac is-gyfansymiau ar gyfer gwahanol ymholiadau ar gyfer yr un ardal ychydig yn anghyson ond bydd y gwahaniaethau'n fach iawn
- ni fydd cyfanswm amcangyfrifon ar gyfer ardaloedd bach sy'n ffurfio ardal fwy, er enghraifft yr holl Ardaloedd Cynnyrch mewn Ardal Gynnyrch Ehangach, yn cyfateb yn union i ddata mewn tabl union debyg ar gyfer yr ardal fwy, ond bydd y gwahaniaethau'n fach iawn

Rydym yn prototeipio'r system ledaenu hyblyg ar hyn o bryd, gan ddefnyddio data synthetig cymhleth ar lefel cofnodion. Rydym hefyd yn sicrhau y bydd seilwaith technegol SYG yn gallu cynnal y dull lledaenu hwn.

Rydym wedi llunio'r sleidiau hyn⁶ er mwyn eich helpu i ddehongli cynllun y system ledaenu hyblyg.

Rydym yn cydnabod y bydd angen i rai defnyddwyr gael llawer iawn o ddata cyfun (yn enwedig y rhai sy'n ychwanegu gwerth ac yn ailddosbarthu'r data) a gallu cyflwyno ymholiadau gan

⁶ <https://consultations.ons.gov.uk/census/initial-view-on-2021-census-output-content-design>

ddefnyddio systemau y tu allan i SYG. Er mwyn diwallu'r anghenion hyn, rydym yn gweithio tuag at ddarparu rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadu (API) er mwyn galluogi defnyddwyr i gael gafael ar ddata'r cyfrifiad drwy wneud ceisiadau rhaglenadwy yn ogystal â thrwy wefan SYG. Byddai'r ystod o ddata a fyddai ar gael drwy API o'r fath yr un peth â'r hyn a ddarperir drwy'r system ledaenu hyblyg. Byddai angen i'r ateb allu rheoli llawer iawn o ddata ac ymholiadau o ffynonellau allanol heb gael effaith andwyol ar ddefnyddwyr porwr y system hyblyg.

Prif ffocws ein gwaith ymchwil a datblygu yw creu system ledaenu hyblyg ar gyfer llunio allbynnau Cyfrifiad 2021. Fodd bynnag, os bydd ein gwaith yn nodi nad oes modd lleadaenu data'r cyfrifiad drwy'r dull hwn, byddwn yn ystyried dull amgen o lunio allbynnau.

Rheoli datgelu ystadegol

Mae dulliau rheoli datgelu ystadegol yn sicrhau bod allbynnau ystadegol yn rhoi cymaint o werth â phosibl i ddefnyddwyr, a'u bod mor ddefnyddiol â phosibl iddynt, gan ddiogelu cyfrinachedd gwybodaeth am unigolion, cartrefi a sefydliadau ar yr un pryd. Mae gan SYG rwymedigaeth gyfreithiol o dan Ddeddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 a Deddf Diogelu Data 1998 (a fydd yn cael ei disodli gan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ym mis Mai 2018) i ddiogelu cyfrinachedd data'r cyfrifiad.

Yn 2021, rydym yn bwriadu defnyddio methodoleg cyfnewid cofnodion wedi'u targedu ar gyfer unigolion a chartrefi sydd â nodweddion prin neu unigryw yn ystod y camau prosesu data. Dyma'r un math o fethodoleg a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2011. Aseswyd pa mor unigryw oedd pob unigolyn a chartref yn seiliedig ar nifer fach o nodweddion. Roedd yr unigolion neu'r cartrefi â nodweddion prin neu unigryw yn fwy tebygol o gael eu cyfnewid am gartref "tebyg" arall o ardal arall, er ei bod yn bosibl i unrhyw gartref gael ei gyfnewid.

Ar ôl i ddata Cyfrifiad 2021 gael eu prosesu, cânt eu hychwanegu at gronfa ddata cofnod terfynol a gedwir yn ddiogel gan SYG. Y nod yw y bydd defnyddwyr wedyn yn gallu gwneud ymholiadau yn y gronfa ddata cofnod terfynol gan ddefnyddio'r adnodd lleadaenu hyblyg a dewis y sail boblogaeth, daearyddiaeth a newidynnau sydd eu hangen. Wedyn, bydd yr adnodd lleadaenu hyblyg yn defnyddio dull newid allweddi celloedd er mwyn sicrhau y bydd y tabl a lunnir yn bodloni gofynion cyfreithiol ynghylch diogelu cyfrinachedd. Bydd angen i'r dull hwn sicrhau'r canlynol:

- bod digon o ansicrwydd yn cael ei greu'n systematig ynghylch p'un a yw'r gell fach yn werth gwir ai peidio
- nad yw creu ansicrwydd yn niweidio defnyddioldeb y data yn sylweddol

Bydd y fethodoleg datgelu ystadegol yn cael ei phrofi'n drwyadl a'i gwerthuso a chytunir arni cyn y cyfrifiad. Byddwn yn gweithio gyda Chofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA) gyda'r nod o sicrhau bod yr un fethodoleg yn cael ei mabwysiadu ledled y DU. Mae hyn yn unol â'r hyn a bennwyd gan y cytundeb ar y cyd rhwng yr Ystadegydd Gwladol a Chofrestrwyr Cyffredinol yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rydym yn ymwybodol bod angen penderfyniadau cynharach ar ddefnyddwyr mewn perthynas â'r fethodoleg o gymharu â Chyfrifiad 2011, felly byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddefnyddwyr yn rheolaidd.

Cysoni ledled y DU ac ystadegau'r DU

Mae SYG yn gyfrifol am ledaenu ystadegau Cyfrifiad 2021 ar gyfer y DU, lle y bydd y data a gasglwyd yn caniatáu hyn. Yn 2011, lluniwyd 73 o dablau safonol yn cynnwys data ar lefel y DU.

Fel y nodwyd yn y Datganiad o Gytundeb ar gyfer cynnal Cyfrifiadau 2021 ledled y DU, ein nod fydd cysoni cynnwys allbynnau Cyfrifiad 2021 lle y bo modd.

Rydym yn cydnabod y galw ymhlith defnyddwyr am ystadegau cyson, cydlynol a hygyrch ar gyfer y DU, ar gyfer pob gwlad ac ar gyfer ardaloedd daearyddol o fewn pob gwlad. Mae SYG, NRS a NISRA eisoes wedi dechrau cydweithio i hwyluso'r broses o gysoni cynnwys yr allbynnau, lle y bo modd, a llwyfannau lledaenu data. Bydd y broses o gysoni allbynnau ledled y DU yn cynnwys ffocws sylweddol ar y fethodoleg rheoli datgelu ystadegol, yn ogystal â ffocws ar seiliau poblogaeth cyffredin, daearyddiaeth, metadata, diffiniadau a fformatau allbwn. Mae gennym ddiddordeb mewn nodi gwerth ystadegau ar lefel y DU a'r manylder sydd ei angen.

Byddwn yn parhau i weithio gydag NRS a NISRA i sicrhau bod y tair swyddfa cyfrifiad yn rhoi mynediad hawdd a chydgyssylltiedig at ystadegau. Byddwn yn ymchwilio i'r defnydd o API i gael data ar y DU drwy wefan pob gwlad.

Allbynnau Cyfrifiad Gwell

Yn ogystal â rhyddhau data'r cyfrifiad, rydym yn bwriadu creu "allbynnau cyfrifiad gwell". Allbynnau sy'n seiliedig ar Gyfrifiad 2021 fydd y rhain, lle y bydd data'r cyfrifiad a data gweinyddol wedi'u cysylltu ar lefel cofnodion fel bod modd llunio allbynnau un-newidyn ar gyfer ardaloedd bach. Mae hyn yn wahanol i brosiect y Cyfrifiad Data Gweinyddol, sy'n asesu p'un a ellir cynnal cyfrifiadau ar ôl 2021 gan ddefnyddio ffynonellau data eraill⁷.

Dim ond ar gyfer pynciau lle y nodwyd angen ymhlith defnyddwyr y cyfrifiad y byddwn yn llunio allbynnau cyfrifiad gwell. Er enghraifft, rydym yn ymchwilio i ddefnyddio gwybodaeth yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) i lunio ystadegau ar incwm cartrefi ac incwm personol⁸. Byddwn hefyd yn defnyddio data Asiantaeth y Swyddfa Brisiol (VOA) yn lle'r cwestiwn ynghylch nifer yr ystafelloedd yng Nghyfrifiad 2021.

Byddwn yn parhau i weithio er mwyn nodi ffynonellau data gweinyddol sydd â'r potensial o gael eu defnyddio i greu allbynnau cyfrifiad gwell. Byddwn yn ceisio sicrhau mai Ystadegau Gwladol yw'r canlyniadau hyn, yn dibynnu ar ansawdd y ffynhonnell ddata weinyddol.

Hoffem nodi eich gofynion ar gyfer y mathau hyn o allbynnau a'r manteision y byddai'r wybodaeth hon yn eu rhoi o ran eich gwaith.

⁷ <https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/administrativedatacensusproject>

⁸ <https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/administrativedatacensusproject/administrativedatacensusresearchoutputs/populationcharacteristics/researchoutputsincomefrompayeandbenefitsfortaxyearending2014>

Canlyniadau penodol ar gyfer y Cyfrifiad

Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth ar gyfer llunio allbynnau penodol neu wedi'u comisiynu nad ydynt wedi'u cynnwys mewn cynhyrchion allbwn safonol yn dilyn Cyfrifiad 2021. Byddwn yn defnyddio'r un fethodoleg rheoli datgelu ystadegol (cyfnewid cofnodion wedi'u targedu a newid allweddi celloedd) â'r holl allbynnau safonol eraill. Bydd y gwasanaeth hwn ar gael ar ôl i allbynnau Cyfrifiad 2021 gael eu rhyddhau. Bydd defnyddwyr hefyd yn dal i allu cysylltu â staff arbenigol i wneud ymholiadau a chael gwybodaeth drwy dîm Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyfrifiad.

Cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2021

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd rhyddhau data Cyfrifiad 2021 yn amserol. Ein bwriad cychwynnol yw cyhoeddi amcangyfrif o'r boblogaeth ar gyfer Cymru a Lloegr, ac amcangyfrifon ar lefel awdurdod lleol yn ôl oedran a rhyw o fewn 12 mis i ddiwrnod Cyfrifiad 2021. Byddwn yn anelu at gyhoeddi'r holl ganlyniadau eraill, gan gynnwys data amlamryweb, o fewn 24 mis i ddiwrnod Cyfrifiad 2021. Ein nod fydd cydgysylltu dyddiadau rhyddhau â'r Alban a Gogledd Iwerddon lle y bo modd.

Byddwn yn cyhoeddi prospectws sy'n amlinellu ein hamserlen o ddyddiadau rhyddhau bwriadedig ar gyfer canlyniadau Cyfrifiad 2021 a'r hyn a gaiff ei ryddhau bob tro. Wedyn, byddwn yn cyhoeddi'r dyddiad gwirioneddol o leiaf bedair wythnos cyn y dyddiad rhyddhau, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn helpu i lywio cynnwys prospectws Cyfrifiad 2021 a phennu ym mha drefn y bydd data'r cyfrifiad yn cael eu rhyddhau. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad terfynol a fydd yn amlinellu ein cynlluniau manylach cyn diwrnod y cyfrifiad.

Cynhyrchion arbenigol Cyfrifiad 2021

Microdata

Samplau bach o ddata ar gyfer cartrefi cyfan ac unigolion yw microdata, ac maent yn cynnwys rhai o nodweddion cysylltiedig y cyfrifiad ond dim gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cartref neu unigolyn. Mae'r samplau hyn yn galluogi defnyddwyr i gael gafael ar ddata tebyg i'r data y gellid eu casglu petai defnyddwyr yn cynnal arolwg eu hunain, ac mae modd eu dadansoddi yn yr un modd.

Yn 2011, crëwyd y ffeiliau microdata canlynol â threfniadau mynediad gwahanol:

Math o ficrodata	Disgrifiad
Ffeil addysgu microdata	<ul style="list-style-type: none"> • Ar gael drwy wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) • Hapsampl o 1% o'r unigolion yng nghofnodion Cyfrifiad 2011 • Set gyfyngedig o newidynnau
Microdata a ddiogelir	<ul style="list-style-type: none"> • Ar gael drwy Wasanaeth Data'r DU • Dau hapsampl o 5% o'r unigolion • Ffeil ar lefel ranbarthol yw un sampl • Data unigol neu wedi'u grwpio ar lefel awdurdod lleol yw'r sampl arall lle y bydd trothwy poblogaeth yn cael ei gyrraedd
Microdata diogel	<ul style="list-style-type: none"> • Ar gael drwy Labordy Microdata Rhithwir SYG/Gwasanaeth Ymchwil Diogel SYG yn SYG Titchfield, Casnewydd a Llundain • Ar gael i Ymchwilwyr Cymeradwy SYG <p>Ffeil unigol</p> <ul style="list-style-type: none"> • 258 o newidynnau ar gyfer dros 5 miliwn o unigolion • Y lefel ddaearyddol isaf – awdurdod lleol • Yn cynnwys preswylwyr mewn cartrefi a sefydliadau cymunedol <p>Ffeil cartref</p> <ul style="list-style-type: none"> • Data ar lefel unigolyn a chartref • 245 o newidynnau ar gyfer dros 5 miliwn o unigolion mewn mwy na 2.4 miliwn o gartrefi

Byddwn yn parhau i alluogi defnyddwyr i gael gafael ar samplau microdata yn dilyn Cyfrifiad 2021. Byddwn hefyd yn sefydlu gweithgor microdata ac yn cydweithio'n agos â defnyddwyr microdata i lunio manyleb sy'n diwallu anghenion defnyddwyr. Byddwn yn bwrw golwg dros gynllun a maint y sampl er mwyn sicrhau ei bod yn briodol i wahanol ddefnyddwyr, gan gynnwys ymchwilwyr proffesiynol. Hefyd, bydd angen i ni sicrhau nad oes risg o ddatgelu ystadegol yn gysylltiedig â'r data. Fel y cyfryw, ni fydd unrhyw ddata cyfrifiad ar lefel unigolyn y gellir eu defnyddio i adnabod yr unigolion dan sylw yn cael eu rhyddhau.

Tarddiad-cyrchfan

Mae data tarddiad-cyrchfan (llif) a luniwyd yn dilyn Cyfrifiad 2011 yn dangos llif pobl o un lle i'r llall⁷. Lluniwyd pedwar math o ddata tarddiad-cyrchfan ar gyfer Cyfrifiad 2011, sef:

1. Ystadegau **Mudo** Arbennig – patrymau mudo (mewnol a rhyngwladol) unigolion yn seiliedig ar eu lleoliad flwyddyn cyn diwrnod y Cyfrifiad (27 Mawrth 2011)
2. Ystadegau **Gweithle** Arbennig – patrymau cymudo unigolion o breswylfa arferol, sef y tarddiad, i ardal gweithle (parth gweithle), sef y cyrchfan
3. Ystadegau **Preswylfa** Arbennig – gwybodaeth am leoliad ail breswylfeydd mewn perthynas â phreswylfa arferol neu weithle unigolyn (newydd ar gyfer Cyfrifiad 2011)
4. Ystadegau **Myfyrwyr** Arbennig – patrymau mudo unigolion a oedd yn byw mewn cyfeiriadau myfyrwyr flwyddyn cyn y cyfrifiad (newydd ar gyfer Cyfrifiad 2011)

Yn 2001, lluniwyd tablau tarddiad-cyrchfan gan ddefnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol addasu celloedd bach ôl-dablaidd. Roedd hyn yn galluogi mynediad eang a hawdd i ddefnyddwyr, ond cafodd effaith andwyol ar ddefnyddioldeb yr allbynnau. Yn 2011, roedd y polisi rheoli datgelu ystadegol yn ei gwneud yn ofynnol i wahanol lefelau o fynediad gael eu darparu ar gyfer data tarddiad-cyrchfan.

Darparwyd data tarddiad-cyrchfan i ddefnyddwyr mewn tair ffordd:

1. yn gyhoeddus drwy wefan SYG a NOMIS
2. fel data a ddiogelir drwy Labordy Microdata Rhithwir SYG a Gwasanaeth Data'r DU
3. fel data diogel drwy Labordy Microdata Rhithwir/Gwasanaeth Ymchwil Diogel SYG a dim ond ar gael i Ymchwilwyr Cymeradwy

Nododd adborth a roddwyd gan ddefnyddwyr ar ôl Cyfrifiad 2011 fod rheoli'r mynediad at ddata tarddiad-cyrchfan wedi gwneud y wybodaeth hon yn llai defnyddiol. Nododd defnyddwyr ei bod yn anodd cael gafael ar y data a'u defnyddio ac y dylid nodi'r broses ar gyfer cael gafael ar y data yn gynharach yn y camau cynllunio.

Rydym yn bwriadu adolygu'r fethodoleg rheoli datgelu ystadegol a ddefnyddir i lunio tablau tarddiad-cyrchfan ar gyfer Cyfrifiad 2021 er mwyn pennu p'un a ellir darparu mwy o ddata i'r cyhoedd. Byddwn hefyd yn edrych ar y ffordd y cafodd tablau Cyfrifiad 2011 eu defnyddio er mwyn nodi'r data sydd eu hangen fwyaf ar ddefnyddwyr. Byddwn yn ystyried y trefniadau ar gyfer storio data tarddiad-cyrchfan fel bod y data hyn ar gael yn haws.

Byddwn yn sefydlu gweithgor tarddiad-cyrchfan ac yn cydweithio'n agos â defnyddwyr y data hyn i lunio manylebau a threfniadau mynediad sy'n diwallu anghenion defnyddwyr ond nad ydynt yn peryglu cyfrinachedd ymatebwyr unigol.

Lluniwyd nifer fawr o'r data tarddiad-cyrchfan ar lefel y DU, gan ddangos llifau ar gyfer preswylwyr arferol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon a rhwng y gwledydd hynny. Cafodd unrhyw ystadegau na ellid eu cysoni'n hawdd ledled y DU oherwydd gwahaniaethau yn y data a gasglwyd eu darparu ar gyfer preswylwyr arferol Cymru a Lloegr yn unig. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â Chofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA) i sicrhau cysondeb o ran diffiniadau a'r data a gesglir, lle y bo hynny'n bosibl, ar gyfer Cyfrifiad 2021.

⁹ <https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011censusdata/originanddestinationdata>

Astudiaeth Hydredol

Byddwn hefyd yn ehangu Astudiaeth Hydredol SYG drwy ychwanegu data o Gyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr i'r cofnodion hynny a gynhwysir eisoes o Gyfrifiadau 1971–2011. Cronfa ddata sy'n cynnwys data cysylltiedig o gyfrifiadau a data digwyddiadau hanfodol ar gyfer sampl o 1% o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr yw'r Astudiaeth Hydredol¹⁰. Mae'n destun yr un amodau cyfrinachedd cadarn â'r cyfrifiad ei hun, a chaiff y gronfa ddata ei chadw'n ddiogel gennym ni, gyda mynediad iddi yn cael ei reoli'n llym yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007.

Mynediad at ddata sensitif y cyfrifiad

Byddwn yn caniatáu mynediad at ddata sensitif y cyfrifiad mewn amgylcheddau ymchwil diogel a reolir, a hynny'n unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007.

Rhoddir mynediad at ddata diogel yn unol â'r telerau ac amodau a nodir yng Nghynllun Ymchwilwyr Gymeradwy SYG¹¹. Mae'n rhaid mai prif ddiben pob prosiect Ymchwil Gymeradwy yw gweithredu er budd y cyhoedd. Rhaid i unrhyw allbynnau a lunnir sicrhau na fydd modd adnabod unrhyw unigolyn. Bydd y trefniadau hyn yn berthnasol i unrhyw un sy'n dymuno cael gafael ar samplau microdata, cynhyrchion tarddiad-cyrchfan a'r Astudiaeth Hydredol.

Byddwn yn parhau i ymchwilio i'r lleoliad a'r trefniadau mynediad gorau posibl ar gyfer y setiau data cyfrifiad hyn.

¹⁰ <https://www.ons.gov.uk/aboutus/whatwedo/paidservices/longitudinalstudyls>

¹¹ <https://www.ons.gov.uk/aboutus/whatwedo/statistics/requestingstatistics/approvedresearcherscheme>

Canlyniadau Cyfrifiad 2021 – allbynnau, seiliau poblogaeth a daearyddiaeth

Categoriâu allbwn

Rydym yn gwneud gwaith ymchwil ar hyn o bryd er mwyn pennu'r pynciau i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2021. Ar gyfer y mwyafrif helaeth o bynciau, ceir cytundeb barn. Mewn rhai meysydd, bydd angen rhagor o waith ymchwil neu wybodaeth ychwanegol fel barn rhanddeiliaid cyn i ni allu cyflwyno ein hargymhellion terfynol i'r llywodraeth.

Bydd ein hargymhellion yn llywio papur gwyn gan y llywodraeth yn 2018. Senedd y DU fydd yn cymeradwyo'r pynciau a'r cwestiynau i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2021 yn derfynol drwy Orchymyn y Cyfrifiad a Rheoliadau'r Cyfrifiad. Hefyd, bydd angen i Gynulliad Cymru gymeradwyo Rheoliadau'r Cyfrifiad yng Nghymru.

Seiliau poblogaeth

Yn 2011, lluniodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) amcangyfrifon cyfrifiad ar y seiliau allbwn canlynol:

Sail allbwn	Disgrifiad
Preswlydd arferol	Prif sail allbwn ar gyfer Cyfrifiad 2011 Ystyr preswlydd arferol y DU yw unrhyw un a oedd, ar ddiwrnod y cyfrifiad, yn y DU ac wedi aros neu'n bwriadu aros yn y DU am gyfnod o 12 mis neu fwy, neu oedd â chyfeiriad parhaol yn y DU ac a oedd y tu allan i'r DU ac yn bwriadu aros y tu allan i'r DU am lai na 12 mis.
Preswlydd byrdymor	Mae preswlydd byrdymor o'r DU at ddibenion y cyfrifiad yn cynnwys unrhyw un a aned y tu allan i'r DU a oedd, ar 27 Mawrth 2011, wedi aros neu'n bwriadu aros yn y DU am gyfnod o dri mis neu fwy ond llai na 12 mis.
Cartrefi	Diffinnir cartref fel: <ul style="list-style-type: none"> un person sy'n byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad sy'n rhannu cyfleusterau coginio ac yn rhannu ystafell fyw neu lolfa neu ardal fwyta
Poblogaethau ail breswylfa	Yn deillio o'r cwestiwn ynghylch ail gyfeiriad Ail gyfeiriad yw cyfeiriad y mae rhywun yn aros ynddo am fwy na 30 diwrnod y flwyddyn nad yw'n breswylfa arferol iddo. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriadau yn y DU a'r rhai y tu allan i'r DU, er enghraifft canolfannau lluoedd arfog, cyfeiriadau cartref myfyrwyr, cartrefi gwyliau.

Sail allbwn	Disgrifiad
Poblogaethau y tu allan i'r tymor	Sail boblogaeth amgen lle mae'r boblogaeth sy'n byw yn yr ardal fel arfer yn cael ei hailddosbarthu i'w man preswyllo y tu allan i'r tymor.
Poblogaethau gweithleoedd	Pob preswlydd arferol 16 oed a throsodd sydd mewn cyflogaeth ac mae ei weithle yn yr ardal. Caiff pobl sy'n gweithio'n bennaf gartref neu o'r cartref neu nad oes ganddynt weithle penodol eu cynnwys yn ardal eu preswylfa arferol.
Poblogaethau diwrnod gwaith	Pob preswlydd arferol 16 oed a throsodd sydd mewn cyflogaeth ac mae ei weithle yn yr ardal, a phob preswlydd arferol arall o unrhyw oed nad yw mewn cyflogaeth ond sy'n byw yn yr ardal. Caiff pobl sy'n gweithio'n bennaf gartref neu o'r cartref neu nad oes ganddynt weithle penodol eu cynnwys yn ardal eu preswylfa arferol.

Yn 2015, gwnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn pennu'r pynciau i'w cynnwys yng Nghyfrifiad 2021¹². Roedd hefyd yn gofyn i ddefnyddwyr ddarparu gwybodaeth am addasrwydd seiliau allbwn Cyfrifiad 2011 a'r angen am unrhyw seiliau allbwn newydd neu newidiadau/gwelliannau i'r rhai presennol. Nododd defnyddwyr fod seiliau allbwn 2011 yn ddigon hyblyg, a gwnaethant fynegi angen iddynt aros yr un peth yn 2021 ag yr oeddent ar gyfer Cyfrifiad 2011 er mwyn gallu cymharu rhyngddynt dros amser.

Yn 2021, byddwn yn parhau i lunio amcangyfrifon gan ddefnyddio'r seiliau allbwn a luniwyd ar gyfer Cyfrifiad 2011.

Poblogaethau bach

Mae ystadegau poblogaeth fach yn darparu data cyfrifiad ar gyfer nodweddion allweddol pobl mewn grwpiau poblogaeth fach penodol, er enghraifft unigolion mewn grŵp ethnig, neu'r rhai â gwlad enedigol benodol. Caiff y rhain eu llunio lle mae maint bach cyfanswm poblogaeth y grŵp hwnnw'n golygu bod cyfyngiadau cyfrinachedd yn cyfyngu ar ryddhau ystadegau safonol manylach.

Caiff y data poblogaeth fach hyn ond eu cynhyrchu ar gyfer ardaloedd daearyddol ble mae'r boblogaeth fach sy'n cael ei chyfrif yn cyrraedd trothwy penodol (100 neu 200 o bobl yn dibynnu ar lefel manylder y tabl). Dim ond yr ardaloedd lle mae'r boblogaeth uwchlaw'r trothwy hwn sydd wedi'u cynnwys ym mhob tabl. Yn 2011, gwnaethom lunio dros 35 o dablau yn cynnwys data am boblogaethau bach¹³.

Byddwn yn parhau i ymgynghori â defnyddwyr er mwyn nodi gwerth llunio ystadegau ar gyfer poblogaethau bach ac yn ystyried y ffordd orau o ledaenu'r data hyn. Bydd gwasanaeth tablau a gomisiynwyd yn cael ei ddarparu ar gyfer y tablau hynny nad oes modd eu llunio. Byddwn hefyd

¹² <https://www.ons.gov.uk/census/censustransformationprogramme/consultations/the2021censusinitialviewoncontentforenglandandwales>

¹³ <https://www.ons.gov.uk/census/2011census/2011censusdata/2011censusdatacatalogue/smallpopulationgroups>

yn ystyried y poblogaethau bach y gall fod modd llunio ystadegau ar eu cyfer gan ddefnyddio'r ymatebion ysgrifenedig manwl iawn i'r cwestiynau ynghylch ethnigrwydd, crefydd a gwlad enedigol.

Daeryddiaeth

Mae daeryddiaeth yn rhan annatod o allbynnau'r cyfrifiad. Yn 2021, byddwn yn darparu allbynnau'r cyfrifiad yn unol â Pholisi Daeryddiaeth Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Mae'r polisi yn amlinellu'r egwyddorion ar gyfer defnyddio gwybodaeth ddaeryddol i lunio a lledaenu ystadegau.

Fel yn 2011, bydd ardaloedd daeryddol eraill y cyfrifiad yn seiliedig ar Ardaloedd Cynnyrch a Pharthau Gweithle.

Ardaloedd Cynnyrch yw'r ardaloedd lleiaf y llunnir ystadegau preswyl y cyfrifiad ar eu cyfer ac fe'u lluniwyd gyntaf ar gyfer Cyfrifiad 2001. Yng Nghymru a Lloegr, mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach yn cynnwys Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ac Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Ganol. Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach yn ardaloedd mwy sy'n cynnwys grwpiau o Ardaloedd Cynnyrch ac maent yn hwyluso'r gwaith o ddadansoddi data a fyddai'n ddatgelol petaent yn cael eu rhyddhau ar lefel Ardaloedd Cynnyrch.

Parthau Gweithle yw'r ardaloedd lleiaf y llunnir ystadegau gweithle ar eu cyfer ac fe'u lluniwyd gyntaf ar gyfer Cyfrifiad 2011.

Roedd yr adborth gan ddefnyddwyr yn ymgynghoriadau blaenorol SYG ynghylch defnyddio Ardaloedd Cynnyrch a Pharthau Gweithle yn gadarnhaol. Hoffai defnyddwyr i'r ardaloedd hyn aros yr un peth, bod yn gymeradwy a galluogi dilyniant o gyfrifiadau blaenorol.

Rydym yn cydnabod bod sefydlogrwydd yn flaenoriaeth ar gyfer rhyddhau allbynnau daeryddol y cyfrifiad. Byddwn yn sicrhau cysondeb â'r dull a ddefnyddiwyd yng Nghyfrifiad 2011 lle y bo modd, gyda ffiniau'r Ardaloedd Cynnyrch yn aros yr un peth ar y cyfan er mwyn sicrhau bod modd cymharu â chanlyniadau Cyfrifiadau 2001 a 2011. Bydd ffiniau Parthau Gweithle hefyd yn cael eu diweddarau, ond nid yw'n hysbys ar hyn o bryd i ba raddau y byddant yn cael eu haddasu.

Byddwn yn ystyried adolygu ffiniau Ardaloedd Cynnyrch lle y bu newid poblogaeth neu ddatblygiad tai sylweddol yn lleol. Gwneir hyn yn bennaf drwy rannu neu uno Ardaloedd Cynnyrch sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau bod meini prawf allweddol maint ac unffurdedd yn cael eu dilyn. Nid ydym yn rhagweld newid mwy na 5% o'r ffiniau Ardaloedd Cynnyrch cyfredol er mwyn bodloni'r gofynion hyn. Byddwn hefyd yn adolygu'r ffiniau Parthau Gweithle a grëwyd yn 2011 i adlewyrchu newidiadau ym mhoblogaeth y gweithle.

Byddwn yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr am yr holl ddiwygiadau i ffiniau fel bod modd cymharu data rhwng ardaloedd Cyfrifiadau 2001, 2011 a 2021. Bydd yr holl Ardaloedd Cynnyrch a Pharthau Gweithle diwygiedig yn perthyn i hierarchaeth sefydlog o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is a Haen Ganol.

Byddwn yn rhyddhau allbynnau ar gyfer ardaloedd gweinyddol (rhanbarthau, siroedd, awdurdodau lleol a wardiau) ar sail ffit orau fel bod modd dyrannu data i ffiniau a all newid rhwng Cyfrifiadau 2011 a 2021. Un eithriad i hyn fydd parciau cenedlaethol, a fydd yn cael eu llunio ar sail ffit union

am fod eu siâp afreolaidd a dosbarthiad anghyfartal eu poblogaeth yn ei gwneud hi'n anos cyfuno data o Ardaloedd Cynnyrch. Byddwn hefyd yn cyfrifo niferoedd y bobl ar lefel cod post. Byddwn yn darparu gwasanaeth ar gyfer chwilio rhwng Ardaloedd Cynnyrch a Pharthau Gweithle ac ardaloedd lefel uwch.

Yn 2011, lluniwyd amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Eurostat gan ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth ar lefel cod post wedi'u gosod mewn sgwâr grid 1km ar sail ffit orau. Rydym wedi nodi bod rhywfaint o ddiddordeb mewn ystadegau sy'n seiliedig ar gridiau, ond hoffem ddefnyddio'r ymgynghoriad hwn i ymchwilio ymhellach i'r galw ymhlith defnyddwyr am y canlyniadau hyn.

Yn 2011, roedd tua 10% o blwyfi sifil yn Lloegr nad oeddent yn cynnwys craidd wedi'i bwysoli yn ôl poblogaeth Ardal Gynnyrch gan ddefnyddio'r fethodoleg "ffit orau" ar gyfer llunio amcangyfrifon cyfrifiad. Felly, nid oedd modd llunio amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y plwyfi hyn. Ni lwyddodd ymchwil ddiweddar gan adran Daeryddiaeth SYG i nodi methodoleg amgen addas i lunio amcangyfrifon ar gyfer plwyfi sifil. Hoffem nodi'r angen am ddata ar gyfer yr holl blwyfi sifil yn Lloegr a'r newidynnau sydd eu hangen ar y lefel hon.

Rydym yn cydweithio'n agos â Chofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA) i sicrhau bod y fethodoleg ar gyfer creu Ardaloedd Cynnyrch a Pharthau Gweithle yn gyson, fel bod modd rhyddhau a dadansoddi allbynnau ar lefel y DU.

¹⁴ <http://bit.ly/2FzkABN>

Dehongli canlyniadau Cyfrifiad 2021

Metadata

Llunnir metadata ochr yn ochr ag allbynnau'r cyfrifiad er mwyn rhoi gwybodaeth gyd-destunol am y data a helpu pobl i'w deall a'u dehongli. Cyn Cyfrifiad 2021, nododd defnyddwyr fod angen i fetadata gael eu gosod ochr yn ochr â'r allbynnau a bod angen iddynt gael eu cyfeirio'n glir at wybodaeth ategol. Gwnaethom ddarparu ystod o ddogfennau am y wybodaeth sydd yn y tablau data, a dogfennau ategol, er enghraifft ynglŷn ag ansawdd yr allbynnau a'r diffiniadau a ddefnyddiwyd.

Yn 2021, byddwn yn llunio metadata gan gynnwys diffiniadau, manylion y newidynnau, dosbarthiadau a dangosyddion ansawdd i ategu'r defnydd o allbynnau ystadegol. Bydd y rhain yn cynnwys, yn arbennig, gyfyngau hyder a mesurau ansawdd eraill a gwybodaeth o arolygon cwmpas ac ansawdd ôl-gyfrifiad megis cyfraddau cwmpas lleol, diffyg ymateb eitem, a chyfraddau priodoli. Byddwn hefyd yn darparu gwybodaeth am ba mor gymaradwy yw allbynnau 2021 â chanlyniadau 2011 a pha mor gymaradwy yw amcangyfrifon Cymru a Lloegr â'r rhai a lunnir yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Bydd hyn er mwyn dangos y gwahaniaethau o ran diffiniadau, cysyniadau, pynciau, geiriad holiaduron a lle mae data gweinyddol wedi cael eu defnyddio.

Byddwn yn cydweithio'n agos â Chofnodion Cenedlaethol yr Alban (NRS) ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon (NISRA) i sicrhau bod metadata cyson yn cael eu llunio fel bod modd dehongli ystadegau ar gyfer y DU gyfan.

Byddwn hefyd yn profi'r llwyfan lledaenu ar-lein ar gyfer Cyfrifiad 2021 yn helaeth gydag ystod o ddefnyddwyr data. Byddwn yn defnyddio'r broses brofi hon i nodi'r ffordd fwyaf priodol o ddarparu metadata cyson a chlr i ddefnyddwyr.

Sicrhau canlyniadau o ansawdd

Mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn gywir ac yn glynu wrth God Ymarfer Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ar gyfer Ystadegau Swyddogol¹⁵ fel y'i pennwyd gan Awdurdod Ystadegau'r DU.

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol yn hyrwyddo'r gwaith o lunio a lledaenu ystadegau swyddogol sy'n llywio'r broses o wneud penderfyniadau. Mae'n helpu llunwyr a defnyddwyr ystadegau drwy nodi'r egwyddorion ac arferion sydd eu hangen i lunio ystadegau dibynadwy o ansawdd sydd o werth i'r cyhoedd.

Rydym eisoes wedi dechrau gwaith ymchwil i nodi'r prosesau a'r gweithdrefnau y bydd eu hangen i sicrhau ein bod yn cael Achrediad Ystadegau Gwladol cyn diwrnod y cyfrifiad. Byddwn hefyd yn cyflawni gwaith ymchwil er mwyn nodi sut i asesu ansawdd yr allbynnau cyfrifiad gwell a lunnir gan ddefnyddio data'r cyfrifiad a data gweinyddol.

Byddwn yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ac yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr o leiaf bedair wythnos cyn i ganlyniadau'r cyfrifiad gael eu rhyddhau. Byddwn hefyd yn darparu metadata ategol (gweler uchod), gan gynnwys adroddiad ar yr ansawdd a'r fethodoleg, i gyd-fynd â'r broses o ryddhau'r prif

¹⁵ <https://www.statisticsauthority.gov.uk/osr/code-of-practice/>

allbynnau ystadegol a'i hategu. Byddwn yn darparu ein hasesiad o ansawdd canlyniadau'r cyfrifiad i ddefnyddwyr, yn seiliedig ar ein proses drwyadl o sicrhau ansawdd allbynnau.

Rhaglen ddadansoddi

Rydym yn cydweithio â Gwasanaeth Ystadegol ehangach y Llywodraeth ar hyn o bryd i ddatblygu ein rhaglen ddadansoddi. Mae hyn er mwyn i ni allu gwneud y defnydd gorau o ddata'r cyfrifiad, ochr yn ochr â data gweinyddol a data arolygon, i ddisgrifio'r gymdeithas rydym yn byw ynddi.

Byddwn yn ymgysylltu â defnyddwyr yn nes at ddiwrnod y cyfrifiad er mwyn deall eu gofynion o ran dadansoddi data a sut mae hyn yn cyd-fynd â'n hamserlen ar gyfer rhyddhau data.

Ein nod fydd sicrhau'r ymwybyddiaeth a'r defnydd ehangaf bosibl o allbynnau Cyfrifiad 2021 ac ychwanegu gwerth drwy helpu defnyddwyr i ddeall a dehongli data'r cyfrifiad. Byddwn yn llunio crynodebau ar lefel genedlaethol, ranbarthol, ac awdurdod lleol, ynghyd ag adroddiadau a dadansoddiadau mewn perthynas â chanfyddiadau allweddol a phynciau penodol.

Byddwn yn ystyried y gwahanol fathau o ddefnyddwyr data'r cyfrifiad ac yn darparu dadansoddiadau a sylwebaeth mewn ystod o fformatau, gan gynnwys straeon, crynodebau a delweddau data rhyngweithiol. Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth ategol hon ar yr un pryd ag y bydd data Cyfrifiad 2021 yn cael eu cyhoeddi yn unol ag amserlen a gyhoeddwyd ymlaen llaw.

Modelau trwyddedu, ariannu a chodi tâl

Yn 2021, byddwn yn darparu allbynnau cyfrifiad safonol ar-lein, yn rhad ac am ddim ar adeg darparu o dan y drwydded llywodraeth agored (OGL). Byddwn yn cadw'r hawl i godi tâl am y canlynol:

- cyflenwi'r data ar gyfrwng ffisegol
- y gwasanaethau i greu tablau penodol gan ddefnyddio gwasanaeth tablau a gomisiynwyd y cyfrifiad

Byddwn yn rhoi tablau a luniwyd gan ddefnyddio'r gwasanaeth tablau a gomisiynwyd i'r cwsmer sy'n gwneud cais amdanynt o dan drwydded llywodraeth agored (OGL) drwy ddarparu dolen i URL ar wefan SYG. Wedyn, bydd y tablau hyn ar gael am ddim i bob defnyddiwr arall. Bydd y gwasanaeth ar gyfer allbwn penodol neu wedi'i gomisiynu ar gael cyn gynted ag y rhyddheir y prif ganlyniadau.

Bydd y costau yr eir iddynt ond yn talu am weinyddu a llunio'r cynhyrchion ac ni fwriedir iddynt arwain at elw. Bydd y costau gwirioneddol yn cael eu pennu yn nes at 2021, ond disgwylir iddynt gyd-fynd yn fras â pholisi codi tâl Cyfrifiad 2011.

Lle na fydd allbynnau penodol yn darparu digon o fanylder at ddibenion ymchwil ystadegol penodol, bydd modd cael gafael ar ddata manylach o dan amodau a reolir yn llym. Rhaid i unrhyw ymchwilydd sy'n dymuno cael gafael ar ddata diogel fod yn "Ymchwilydd Cymeradwy" a bodloni'r meini prawf a nodir yn Neddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007.

Byddwn yn parhau i weithio gydag ailwerthwyr sy'n ychwanegu gwerth, a chaiff graddau'r gyberthynas hon eu pennu ynghyd â'r polisi codi tâl cysylltiedig.

Cymaroldeb rhyngwladol canlyniadau Cyfrifiad 2021

Byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymyiadau rhyngwladol i gyflenwi data'r cyfrifiad i Gomisiwn Ystadegol y Cenhedloedd Unedig yn dilyn Cyfrifiad 2021. Rydym yn rhagweld y bydd gwybodaeth yn cael ei pharatoi i gefnogi asesiadau a dadansoddiadau cymharol ledled Ewrop. Byddwn yn parhau i weithio ar ateb technolegol priodol i gyflenwi'r data hyn i sefydliadau perthnasol. Lle na fydd pynciau sydd eu hangen ar gyfer adroddiadau rhyngwladol yn cael eu cynnwys yn y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, bydd ffynonellau amgen yn cael eu nodi er mwyn cyflawni ein dyletswyddau cymaint â phosibl.

Casgliad

Bydd cynllun cyffredinol cynnwys allbwn Cyfrifiad 2021 yn cael ei werthuso yn erbyn y meini prawf canlynol:

Meini Prawf	Disgrifiad
Hygyrchedd	Mae hyn yn ymwneud â'r gallu i ddod o hyd i ddata Cyfrifiad 2021 a chael gafael arnynt yn hawdd ar gyfer pob gwlad a'r DU gyfan. Mae hyn yn cynnwys cael gafael ar lawer iawn o ddata, tablau a gomisiynwyd, cynhyrchion a ddiogelir a chynhyrchion diogel. Mae hyn yn cynnwys y gallu i gael gafael ar fetadata a sylwebaeth er mwyn deall a dehongli'r data a gyhoeddwyd
Hyblygrwydd	Mae hyn yn ymwneud â'r gallu i gael gafael ar ddata sy'n diwallu anghenion defnyddwyr, er enghraifft, creu eu tabl data eu hunain.
Amseroldeb	Mae hyn yn mesur pa mor brydlon y mae allbynnau'r cyfrifiad yn cael eu rhyddhau. Mae hyn yn cynnwys rhyddhau cynhyrchion arbenigol (microdata a chynhyrchion tarddiad-cyrchfan). Dylid llunio allbynnau cyfrifiad cyn gynted â phosibl ar ôl diwrnod y cyfrifiad.
Dichonoldeb	Mae hyn yn ymwneud â dichonoldeb gweithredol datblygu dulliau rheoli datgelu ystadegol ac adnodd hyblyg ar gyfer llunio tablau.
Risg Rheoli Datgelu Ystadegol	Mae hyn yn ymwneud â sicrhau y bydd y dull Rheoli Datgelu Ystadegol a ddewisir yn rhoi digon o ansicrwydd yn yr allbynnau a gyhoeddir.
Costau perthynol	Mae hyn yn ymwneud â chost datblygu a gweithredu allbynnau a dulliau lledaenu posibl.
Pa mor dderbyniol ydyw i ddefnyddwyr	Mae hyn yn ymwneud â phrofi ymarferoldeb atebion ar gyfer allbynnau yn erbyn gofynion defnyddwyr.
Hyder y cyhoedd	Mae hyn yn ymwneud â sicrhau ei bod yn amlwg bod data yn ddiennw a bod y dulliau a ddefnyddir i lunio allbynnau yn dryloyw ac yn cael eu cyfleu'n llwyr i'r defnyddwyr.

Caiff eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn eu defnyddio i ddeall cryfder effaith (gadarnhaol, negyddol neu ddim) ein cynllun bwriadedig ar hygyrchedd, hyblygrwydd ac amseroldeb allbynnau i ddefnyddwyr. Byddwn yn defnyddio tystiolaeth arall i werthuso ein cynllun yn erbyn y meini prawf sy'n weddill.

Caiff y dystiolaeth hon ei defnyddio i nodi'r pryderon pwysicaf ymhlith defnyddwyr a blaenoriaethu ymchwil ar yr agweddau hyn.

Byddwn hefyd yn ystyried y math o waith rydych yn ei wneud. Bydd hyn yn seiliedig ar ddiffiniad Cynllun Ymchwilyr Cymeradwy SYG o ymchwil a wneir er budd y cyhoedd¹⁶.

Gallai'r mathau o waith gynnwys:

- defnyddio data'r cyfrifiad i wneud penderfyniadau ynghylch polisi cyhoeddus
- defnyddio data'r cyfrifiad i gynllunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus
- defnyddio data'r cyfrifiad i ddyrannu adnoddau cyhoeddus
- defnyddio data'r cyfrifiad i wneud penderfyniadau sy'n debygol o fod o fudd sylweddol i economi'r DU, i gymdeithas neu i ansawdd bywyd pobl yn y DU

Dim ond y dystiolaeth a ddarperir yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn a gaiff ei gwerthuso gennym. Byddwch mor fanwl â phosibl yn eich ymatebion, gan gynnwys cyfeirio at bolisiau, prosiectau neu waith ymchwil penodol, os yw hynny'n briodol.

Rydym yn gwerthfawrogi eich mewnbwn ac yn diolch i chi am eich cyfraniad.

¹⁶ <https://www.ons.gov.uk/aboutus/whatwedo/statistics/requestingstatistics/approvedresearcherscheme>

Annex - Paper questionnaire template

Y ffordd orau o ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw ar lein¹⁷. Os hoffech ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy e-bost neu ar bapur, cwblhewch dempled yr holiadur ac anfonwch eich ymateb drwy e-bost i census.outputs@ons.gov.uk gan ddefnyddio'r llinell destun "Ymgynghoriad ar y Farn Gychwynnol".

Mae rhai cwestiynau gorfodol y mae angen i chi eu cwblhau er mwyn i ni gynnwys eich ymateb yn ein dadansoddiad.

Gallwch ymateb i bob cwestiwn, neu ddim ond y cwestiynau sy'n berthnasol i'ch gwaith.

Cyflwyniad

Mae cwestiynau gorfodol wedi'u marcio â seren (*)

1 *Ydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar ran sefydliad neu fel unigolyn?

- Sefydliad
 Unigolyn

2 *Ym mha sector rydych yn gweithio? Bydd hyn yn ein helpu i fonitro'r ystod o ddefnyddwyr sydd wedi ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

- Adran o'r llywodraeth
 Corff cyhoeddus (er enghraifft iechyd, trafnidiaeth, gwasanaethau brys)
 Awdurdod lleol
 Tai
 Academaidd/ymchwil
 Elusennol a gwirfoddol
 Masnachol
 Cyfleustodau
 Newyddiadurwr/cyfryngau
 Achydd/hanesydd teulu
 Arall (nodwch)

3 *Beth yw enw'r sefydliad rydych yn ei gynrychioli?

4 *Gwybodaeth gyswllt

Eich enw

Cyfeiriad e-bost

Rhif ffôn

¹⁷ <https://consultations.ons.gov.uk/census/initial-view-on-the-2021-census-output-design>

- 5** *Efallai y byddwn am gysylltu â chi ynglŷn â'ch ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Fyddech chi'n fodlon i ni wneud hyn?
- Byddwn
- Na fyddwn
- 6** *Er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau a wneir gennym yn dryloyw, caiff yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn eu cyhoeddi. Bydd hyn yn cynnwys enw'r sefydliad neu'r unigolyn sy'n ymateb. A fydddech cystal â chadarnhau eich bod yn fodlon i ni gyhoeddi eich enw. Ni fyddwn yn cyhoeddi manylion cyswllt personol. Dylech fod yn ymwybodol y gallai unrhyw wybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn fod ar gael i'r cyhoedd os gwneir cais amdani o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Os byddwch yn ymateb fel unigolyn ond yna'n enwi eich sefydliad yn unrhyw un o'r cwestiynau agored, caiff yr enw hwnnw ei gyhoeddi.
- Ydw, rwy'n caniatáu i chi gyhoeddi fy enw gyda'm hymateb
- Na, tynnwch fy enw cyn cyhoeddi fy ymateb

Darllenwch drwy ein dogfen ymgynghori, sy'n amlinellu ein barn gychwynnol ar gynllun cynnwys allbynnau Cyfrifiad 2021 a'r broses o'i ledaenu. Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'r pynciau a drafodir yn y ddogfen ymgynghori. Rhowch gymaint o fanylion â phosibl i ategu eich atebion. Os ydym wedi gofyn i chi ddisgrifio'r effaith ar eich gwaith, rhowch enghreifftiau penodol. Os byddwch yn cyfeirio at bolisi neu gynllun penodol, nodwch gyfeiriad uniongyrchol ato. Dim ond y dystiolaeth a ddarperir yn eich ymateb a gaiff ei gwerthuso gennym. Rydym wedi gofyn cwestiynau yn seiliedig ar eich profiad o ddata Cyfrifiad 2011. Hyd yn oed os nad ydych wedi defnyddio data Cyfrifiad 2011, byddai gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn ar eich anghenion ar gyfer data Cyfrifiad 2021 o hyd.

Ar ôl pob adran, caiff blwch ei ddarparu er mwyn i chi ychwanegu unrhyw sylwadau eraill nad aethpwyd i'r afael â nhw yn y cwestiynau.

Cefndir

Hoffem wybod pa bynciau ac ardaloedd daearyddol y gwnaethoch eu defnyddio fwyaf ar ôl Cyfrifiad 2011. Hyd yn oed os na wnaethoch ddefnyddio data Cyfrifiad 2011, byddai gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn ar y data rydych yn debygol o'u defnyddio ar ôl Cyfrifiad 2021 o hyd.

7 Beth yw'r prif bynciau sydd o ddiddordeb i chi?

Rydym wedi cynnwys rhai pynciau rydym yn ystyried eu cynnwys yn y cyfrifiad nesaf neu a allai fod ar gael drwy ddata gweinyddol.

Nodwch y pynciau a oedd o ddiddordeb i chi yn nhrefn blaenoriaeth, gydag 1 yn nodi'r pwnc yr oedd gennych y diddordeb mwyaf ynddo. Os na wnaethoch ddefnyddio pwnc, gadewch hwn yn wag.

- | | |
|---|--|
| <input type="checkbox"/> Oedran | <input type="checkbox"/> Statws priodasol |
| <input type="checkbox"/> Argaeledd car | <input type="checkbox"/> Mudo |
| <input type="checkbox"/> Gofalwyr | <input type="checkbox"/> Hunaniaeth genedlaethol |
| <input type="checkbox"/> Gwres canolog | <input type="checkbox"/> Nifer yr ystafelloedd ac ystafelloedd gwely |
| <input type="checkbox"/> Dinasyddiaeth | <input type="checkbox"/> Galwedigaeth |
| <input type="checkbox"/> Gwlad enedigol | <input type="checkbox"/> Crefydd |
| <input type="checkbox"/> Addysg | <input type="checkbox"/> Rhyw |
| <input type="checkbox"/> Ethnigrwydd | <input type="checkbox"/> Cyfeiriadedd Rhywiol |
| <input type="checkbox"/> Hunaniaeth o ran Rhywedd | <input type="checkbox"/> Dosbarthiadau economaidd-gymdeithasol |
| <input type="checkbox"/> Iechyd | <input type="checkbox"/> Deiliadaeth a landlord |
| <input type="checkbox"/> Cyfansoddiad cartrefi | <input type="checkbox"/> Teithio |
| <input type="checkbox"/> Incwm | <input type="checkbox"/> Math o lety |
| <input type="checkbox"/> Iaith | <input type="checkbox"/> Cyn-filwyr |
| <input type="checkbox"/> Y farchnad lafur | Arall – nodwch |

8 Yn 2011, pa ardaloedd daearyddol y gwnaethoch eu defnyddio?

Nodwch yr ardaloedd daearyddol a oedd o ddiddordeb i chi yn nhrefn blaenoriaeth, gydag 1 yn nodi'r ardal ddaearyddol yr oedd gennych y diddordeb mwyaf ynddi. Os na wnaethoch ddefnyddio ardal ddaearyddol, gadewch hwn yn wag.

- | | |
|---|--|
| <input type="checkbox"/> Awdurdodau lleol | <input type="checkbox"/> Ardaloedd cynnyrch ehangach haen ganol (MSOA) |
| <input type="checkbox"/> Plwyfi | <input type="checkbox"/> Ardaloedd Teithio i'r Gwaith (TTWA) |
| <input type="checkbox"/> Rhanbarthau | <input type="checkbox"/> Parthau Gweithle |
| <input type="checkbox"/> Wardiau | <input type="checkbox"/> Enwau unedau tiriogaethol at ddibenion ystadegaeth (NUTS) |
| <input type="checkbox"/> Siroedd / awdurdodau lleol haen uchaf | <input type="checkbox"/> Etholaethau Seneddol |
| <input type="checkbox"/> Gwledydd | <input type="checkbox"/> Partneriaethau Menter Lleol |
| <input type="checkbox"/> Ardaloedd adeiledig (gan gynnwys israniadau) | <input type="checkbox"/> Parciau Cenedlaethol |
| <input type="checkbox"/> Grid GEOSTAT | <input type="checkbox"/> Cod post |
| <input type="checkbox"/> Ardaloedd Cynnyrch | <input type="checkbox"/> Arall |
| <input type="checkbox"/> Ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (LSOA) | |

Bydd yn ddefnyddiol i ni wybod at ba ddiben rydych yn defnyddio data'r cyfrifiad er mwyn i ni allu deall y ffordd orau o ddiwallu eich anghenion ymhellach.

9 Yn 2011, at ba ddiben y gwnaethoch ddefnyddio data'r cyfrifiad?

Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- Dibenion masnachol
- Dyrannu adnoddau
- Cynllunio a darparu gwasanaethau
- Llunio a monitro polisiau
- Ymchwil academaidd
- Budd personol
- Dibenion eraill – nodwch

Mynediad at amcangyfrifon Cyfrifiad 2021

System ledaenu hyblyg

Ar gyfer 2021, rydym yn bwriadu lledaenu data'r cyfrifiad drwy system ledaenu hyblyg a fydd yn sicrhau bod defnyddwyr yn gallu diffinio eu tablau eu hunain, gan ddewis yr ardaloedd daearyddol, y sail boblogaeth a'r newidynnau sydd eu hangen arnynt.

Bydd y system hon yn eich galluogi i gael mynediad at y data sydd eu hangen arnoch cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gallu rhyddhau data yn gyflymach o lawer nag a wnaethpwyd ar ôl Cyfrifiad 2011.

Mae'r cwestiynau canlynol yn asesu eich angen i gael mynediad at y data yn y ffordd hon a'r effaith y byddai'n ei chael ar eich gwaith

10 Byddai'n well gennyf gael mynediad at ddata drwy system ledaenu hyblyg ar-lein yn gynharach ar ôl diwrnod y cyfrifiad yn hytrach nag aros i SYG lunio tablau.

Cytuno'n gryf Cytuno Ddim yn siŵr Anghytuno Anghytuno'n gryf

11 Mae'r gallu i ddiffinio fy nhablau fy hun yn fwy defnyddiol i mi na defnyddio tablau rhagddifiniedig.

Cytuno'n gryf Cytuno Ddim yn siŵr Anghytuno Anghytuno'n gryf

12 Byddai'n ddefnyddiol petai nifer fach o dablau amryweb unigol ar gael ochr yn ochr â'r tablau hynny y gallaf eu creu drwy'r system ledaenu hyblyg.

Cytuno'n gryf Cytuno Ddim yn siŵr Anghytuno Anghytuno'n gryf

13 Byddwn i'n fodlon defnyddio tablau lle mae anghysondebau bach yng nghyfansymiau tablau allbynnau oherwydd yr aflonyddiad a achosir gan y dull allweddi celloedd.

Cytuno'n gryf Cytuno Ddim yn siŵr Anghytuno Anghytuno'n gryf

- 14** Mae angen cyfran uchel iawn o ddata cyfun arnaf i'w gosod yn fy systemau fy hun (er enghraifft swmp ddata)

Cytuno'n gryf Cytuno Ddim yn siŵr Anghytuno Anghytuno'n gryf

- 15** Ar hyn o bryd, rydym yn bwriadu defnyddio'r system ledaenu hyblyg i ledaenu'r rhan fwyaf o ddata cyhoeddus y cyfrifiad, ond byddwn hefyd yn anelu at ddarparu rhyngwyneb rhaglennu cymwysiadau (API). A fyddai eich systemau yn gallu cael mynediad at ddata'r cyfrifiad drwy API?

- Byddent
 Na fyddent

- 16** Sut byddech chi'n disgwyl defnyddio data a gafwyd drwy API?

- 17** Unrhyw sylwadau eraill?

Cynhyrchion arbenigol Cyfrifiad 2021

Allbynnau Cyfrifiad Manylach

Bydd Allbynnau Cyfrifiad Manylach ar gael am y tro cyntaf yn 2021, lle y caiff ffynonellau data gweinyddol eu hintegreiddio â data'r cyfrifiad i lunio allbynnau, yn bennaf ar nodweddion y boblogaeth nad ydynt wedi'u cynnwys yn hanesyddol yn y cyfrifiad. Gallent hefyd gael eu defnyddio i wella cwestiynau presennol drwy roi mwy o fanylion, er enghraifft, drwy ddefnyddio'r mathau o eiddo a ddefnyddir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisió (VOA) i ddsbarthu'r mathau o eiddo a nodir yn y cyfrifiad yn gategorïau llai o faint.

- 18** Pa bynciau, nad ydynt yn cael eu cynnwys yn holiadur y cyfrifiad ar hyn o bryd, y byddai gennych chi/y byddai gan eich sefydliad y diddordeb mwyaf mewn derbyn data yn eu cylch?

- Incwm
 Math o eiddo mewn metrau sgwâr
 Math o eiddo (dadansoddiad manylach)

19 Pa effaith y byddai'r math hwn o wybodaeth yn ei chael ar eich gwaith chi/gwaith eich sefydliad?

20 Unrhyw sylwadau eraill?

Microdata

Samplau bach o ddata ar gyfer cartrefi cyfan ac unigolion yw microdata, ac maent yn cynnwys rhai o nodweddion cysylltiedig y cyfrifiad ond dim gwybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cartref neu unigolyn. Byddwn yn parhau i alluogi defnyddwyr i gael mynediad at samplau microdata yn dilyn Cyfrifiad 2021.

21 Yn 2011, pa samplau microdata y cawsoch fynediad iddynt?

- Cyhoeddus
- Wedi'u diogelu (Safeguarded)
- Diogel (Secure)
- Dim

22 Yn 2011, cawsoch ddigon o wybodaeth am gynnwys ac argaeledd samplau microdata.

Cytuno'n gryf Cytuno Ddim yn siŵr Anghytuno Anghytuno'n gryf

23 Pa waith ymchwil/dadansoddi a wnaethpwyd gennych gan ddefnyddio'r sampl microdata? Darparwch ddolen i unrhyw adroddiadau a gyhoeddwyd sy'n dangos yr effaith y mae defnyddio microdata wedi'i chael.

24 Disgrifiwch unrhyw gyfyngiadau wrth ddefnyddio samplau microdata Cyfrifiad 2011 gan gynnwys:

- a. mynediad at ddata (cyhoeddus, wedi'u diogelu, diogel)
- b. cynllun y sampl (cyhoeddus, wedi'u diogelu, diogel)

25 A oes gennych ddi-ddordeb mewn cyfrannu at gynllun microdata Cyfrifiad 2021 ymhellach drwy weithgor?

- Oes
 Nac oes

26 Unrhyw sylwadau eraill?

Tarddiad-cyrchfan

Mae data tarddiad-cyrchfan (llif) a luniwyd yn dilyn Cyfrifiad 2011 yn dangos llif pobl o un lle i'r llall. Rydym yn bwriadu adolygu'r fethodoleg Rheoli Datgelu Ystadegol a ddefnyddir i lunio tablau tarddiad-cyrchfan ar gyfer Cyfrifiad 2021 er mwyn pennu p'un a ellir cyhoeddi mwy o ddata.

27 Yn 2011, pa ddata tarddiad-cyrchfan y gwnaethoch eu defnyddio?

- Cyhoeddus
 Wedi'u diogelu
 Diogel
 Dim

28 Yn 2011, cawsoch ddigon o wybodaeth am gynnwys ac argaeledd data tarddiad-cyrchfan.

Cytuno'n gryf Cytuno Ddim yn siŵr Anghytuno Anghytuno'n gryf

29 Pa waith ymchwil/dadansoddi a wnaethpwyd gennych gan ddefnyddio data tarddiad-cyrchfan? Darparwch ddolen i unrhyw adroddiadau a gyhoeddwyd sy'n dangos yr effaith y mae defnyddio data tarddiad-cyrchfan wedi'i chael

30 Disgrifiwch unrhyw gyfyngiadau wrth ddefnyddio samplau data tarddiad-cyrchfan gan gynnwys:

- a. mynediad at ddata (cyhoeddus, wedi'u diogelu, diogel)
b. cynllun y tablau (cyhoeddus, wedi'u diogelu, diogel)

31 A oes gennych ddiddordeb mewn cyfrannu at gynllun data tarddiad-cyrchfan Cyfrifiad 2021 ymhellach drwy weithgor?

- Oes
 Nac oes

32 Unrhyw sylwadau eraill?

Daearyddiaeth

Plwyfi

Mae Polisi Daearyddiaeth Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn nodi polisi 'ffit orau' o Ardaloedd Cynnyrch i ardaloedd gweinyddol yn seiliedig ar graidd wedi'i bwysoli yn ôl poblogaeth. Gan fod nifer o blwyfi yn llawer llai o faint nag Ardaloedd Cynnyrch, ni chasglwyd unrhyw ystadegau ar gyfer tua 10% o'r plwyfi yn Lloegr yn 2011 gan nad ydynt yn cynnwys craidd Ardal Gynnyrch.

Mae gwaith wedi'i wneud i ystyried methodolegau eraill ar gyfer llunio ystadegau ar lefel plwyfi. Mae'n amlwg bod pob methodoleg yn cynnig cydbwysedd rhwng sicrhau bod data ar gael ar gyfer pob plwyf a nifer y newidynnau y gellir eu rhyddhau. Po fwyaf y newidynnau a gaiff eu rhyddhau, y lleiaf o blwyfi y gall y newidynnau hynny gael eu rhyddhau ar eu cyfer oherwydd rhesymau datgelu.

33 Mae angen i mi gael data ar lefel plwyfi.

- Oes
 Nac oes

34 Er mwyn deall yr hyn sydd ei angen arnoch, hoffem wybod beth sydd bwysicaf i chi fel defnyddiwr. Nodwch y canlynol yn nhrefn blaenoriaeth, gydag 1 yn nodi'r pwysicaf.

- Bod data ar gael ar gyfer pob plwyf ystadegol hyd yn oed os yw hynny'n golygu mai dim ond ambell newidyn sydd ar gael
- Bod nifer o newidynnau ar gael ar gyfer plwyfi hyd yn oed os yw hynny'n golygu na fydd ystadegau yn cael eu llunio ar gyfer rhai plwyfi
- Bod amcangyfrifon ar gael ar gyfer pob plwyf, ond bydd mwy o newidynnau ar gael ar gyfer rhai plwyfi

Data grid

Fel rhan o'i hallbynnau ar gyfer Cyfrifiad 2011, rhyddhaodd SYG ystadegau ar grid 1km er mwyn cefnogi gwaith dadansoddi ar lefel Ewropeaidd. Byddwn hefyd yn llunio allbynnau ystadegol fesul grid fel rhan o Gyfrifiad 2021 er mwyn helpu i integreiddio ystadegau ar draws sawl parth (er enghraifft y boblogaeth, yr amgylchedd) ac ennyn gwell dealltwriaeth o ddsbarthiad data o gymharu â'r hierarchaeth o Ardaloedd Cynnyrch. Caiff yr allbwn hwn ei ddarparu ochr yn ochr â'r Ardaloedd Cynnyrch fel daearyddiaeth ledaenu ac ni fydd yn eu disodli.

Er mwyn llywio'r fethodoleg a ddefnyddir i lunio'r ystadegau hyn, byddai'n ddefnyddiol deall eich gofynion a sut y gellid eu defnyddio i gefnogi gwaith dadansoddi gofodol.

35 A wnaethoch ddefnyddio data sgwâr grid yn 2011 ar gyfer eich gwaith?

- Do
 Naddo

36 Mae SYG yn ystyried llunio allbynnau Cyfrifiad 2021 ar gridiau. A fyddai cael data'r cyfrifiad ar gridiau o ddefnydd i chi?

- Byddai
 Na fyddai

37 Pa effaith y byddai hyn yn ei chael ar eich gwaith?
Rhowch enghraifft (er enghraifft, sut y gallai hyn fod o fudd i'ch data?)

38 Os byddwch yn defnyddio data grid yn 2021, byddai'n ddefnyddiol iawn gwybod a fyddai'n well gennych petai'r data yn cael eu rhyddhau ar y Grid Cenedlaethol Prydeinig yn hytrach na'r Grid Ewropeaidd.

Nodwch eich dewis grid ar gyfer rhyddhau'r data:

- Grid Cenedlaethol Prydeinig
 Grid Ewropeaidd
 Nid oes ots gennyf

39 Unrhyw sylwadau eraill?

Dehongli amcangyfrifon Cyfrifiad 2021

Gwybodaeth ategol

Yn 2011, gwnaethom ddarparu ystod o ddogfennau am y wybodaeth sydd yn y tablau data, a dogfennau ategol, er enghraifft ynglŷn ag ansawdd yr allbynnau a'r diffiniadau a ddefnyddiwyd. Mae'r wybodaeth hon yn rhoi cyd-destun ar gyfer y data, er enghraifft sut y cawsant eu casglu a chwmpas y data, er enghraifft dyddiad cyhoeddi, disgrifiad a geiriau chwilio allweddol. Rydym am sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir gennym yn ddefnyddiol ac yn hawdd i chi ei deall.

40 Pa wybodaeth ategol a ddefnyddiwyd gennych yn 2011? Ticiwch bob un sy'n berthnasol

- Canllaw i Ddefnyddwyr ar y Cyfrifiad
- Ansawdd a dulliau (er enghraifft Methodoleg datgelu ystadegol, cyfraddau ymateb)
- Geirfa
- Disgrifiadau o newidynnau a dosbarthiadau
- Arall (nodwch)

41 Ble y byddech yn disgwyl cael mynediad at wybodaeth ategol?

- Yn y tablau data
- Mewn dolen, wrth ymyl y tabl data
- Drwy ran arall o wefan SYG

42 Unrhyw sylwadau eraill?

Ffyrdd ehangach o ddefnyddio data'r cyfrifiad at ddibenion dadansoddi

43 Yn 2011, a wnaethoch ddarllen y dadansoddiad a'r sylwadau ategol?

- Do
- Naddo (nid oedd angen i mi wneud hynny)
- Naddo (nid oeddwn i'n gwybod eu bod ar gael)

44 Sut mae'n well gennych dderbyn sylwadau ategol?

Nodwch yr hyn sydd fwyaf defnyddiol i chi yn nhrefn blaenoriaeth drwy ddefnyddio'r dull graddio:

- Bwletin ystadegol sy'n disgrifio allbynnau allweddol
- Delweddau
- Dim
- Arall

45 Unrhyw sylwadau eraill? Os ydych yn dewis 'Arall', rhwch sylwadau yn y blwch isod.

Cymaroldeb amcangyfrifon Cyfrifiad 2021

Cysoni ledled y DU ac Ystadegau'r DU

46 Pa mor bwysig yw gallu cael mynediad at ddata ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar gyfer eich gwaith?

Pwysig iawn Pwysig Ddim yn siŵr Ddim yn bwysig iawn Ddim yn bwysig o gwbl

47 Sut byddech chi'n disgwyl cael mynediad at ddata ar gyfer y DU?

- Cael mynediad at ddata ar bob un o wledydd y DU ar un wefan, er enghraifft dewis data ar gyfer awdurdodau lleol yn yr Alban drwy wefan SYG
- Ymweld â gwefan pob un o wledydd y DU i gael mynediad at ddata ar y wlad honno

48 A oes gennych ddiddordeb yn y canlynol:

- Cyfansymiau ystadegol y DU
- Ystadegau ardal fach ar gyfer gwahanol ardaloedd ledled Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon

49 Dangoswch yr effaith y mae defnyddio ystadegau'r DU yn ei chael ar eich gwaith. Darparwch ddolenni i unrhyw wybodaeth ategol sydd gennych.

50 Unrhyw sylwadau eraill?

Cymaroldeb rhyngwladol

51 A ydych wedi cymharu amcangyfrifon y DU â setiau data rhyngwladol?

- Ydw
- Nac ydw

52 Rhowch enghreifftiau lle rydych wedi cymharu data'r DU â setiau data rhyngwladol

53 Unrhyw sylwadau eraill?

